# Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant

## 2024-2030

Ymgynghoriad ar gyfer pobl ifanc

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Mae diwylliant yn rhan o’n bywyd bob dydd.

Mae o’n cwmpas ni. Mae diwylliant yn ein hysbrydoli ac yn ein helpu i fwynhau bywyd, mynegi ein hunain a bod yn greadigol:

cerddoriaeth
llenyddiaeth
dawnsio
treftadaeth
celf
theatr
archifau
amgueddfeydd
tirweddau
llyfrgelloedd
y Gymraeg
ein traddodiadau
a mwy.

## Diwylliant yw ein gorffennol - ein presennol - a’n dyfodol.

Mae ein diwylliant Cymreig yn arbennig ac yn unigryw. Mae’n siapio pwy ydyn ni ac yn rhoi ymdeimlad o berthyn i ni.

## Ynglŷn â’r strategaeth

Mae Llywodraeth Cymru eisiau i ddiwylliant ffynnu ac mae eisiau defnyddio diwylliant i wella bywydau pobl.


Rydym ni wedi ysgrifennu’r strategaeth newydd hon ar gyfer diwylliant yng Nghymru. Mae ar gyfer y sectorau celfyddydau, amgueddfeydd, llyfrgelloedd, archifau a’r amgylchedd hanesyddol, ond mae hefyd ar gyfer pawb sy’n gweithio gyda diwylliant, yn ei fwynhau ac yn ei werthfawrogi.

Mae’r strategaeth hon wedi’i hadeiladu o amgylch Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru), gan gynnwys y nod ganlynol:

**Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu.**

## Cynnwys pobl

Mae gennym ni lawer o uchelgeisiau ac rydym ni am ganolbwyntio ar dri maes blaenoriaeth rhwng nawr a 2030. Rydym ni eisoes wedi siarad â llawer o bobl fel rhan o’r gwaith o ddatblygu’r strategaeth hon, gan gynnwys pobl sy’n gweithio yn y sector diwylliant a chynrychiolwyr cymunedol. Ond beth ydych chi’n ei feddwl?



# Blaenoriaeth 1: Mae Diwylliant Yn Dod Â Ni At Ein Gilydd

Mae diwylliant i bawb, am bawb, ac yn cael ei greu gan bawb.

## Ein huchelgeisiau:

### 1 Mae diwylliant yn gynhwysol, yn hygyrch ac yn amrywiol.

- **Cynhwysol** — yn cynnwys pawb.
- **Hygyrch** — yn hawdd ei ddefnyddio ac ar gael i bawb.
- **Amrywiol** — yn cynnwys ac yn cynrychioli pawb.

Dylai pawb allu mwynhau diwylliant. Ni ddylai fod unrhyw beth sy'n rhwystro pobl rhag cymryd rhan. Dylai pawb deimlo bod diwylliant yng Nghymru yn berthnasol iddyn nhw.

### 2 Mae democratiaeth ddiwylliannol a hawliau diwylliannol yn ganolog i ddiwylliant yng Nghymru.

- **Democratiaeth ddiwylliannol** — rhaid i bawb gael llais mewn penderfyniadau am ddiwylliant.
- **Hawliau diwylliannol** — mae diwylliant pawb yn werthfawr, mae gan bawb hawl i gymryd rhan a chael pharch tuag at eu diwylliant.

Mae pob diwylliant yng Nghymru yn werthfawr a dylid eu cynrychioli mewn ffordd deg.

Dylai pawb allu cymryd rhan a chael dweud eu dweud wrth lunio eu hunaniaeth ddiwylliannol eu hunain a sut mae diwylliant yn cael ei ffurfio yng Nghymru.

### 3 Mae diwylliant yn coffáu (dathlu) ac yn cyflwyno'r gorffennol mewn ffordd gytbwys.

Rydym ni am sicrhau bod y gorffennol yn cael ei esbonio mewn ffyrdd sy'n deg a chytbwys, gan ddangos sut mae cymdeithas wedi newid ac yn dal i newid.

### 4 Mae diwylliant yn rhan o greu lleoedd a llesiant cymunedol.

Mae ein diwylliant a'n treftadaeth yn gysylltiedig â llawer o bethau yn ein cymunedau, — tirweddau, hanesion, adeiladau a mwy. Maen nhw'n rhan o'r hyn sy'n gwneud lle yn arbennig ac unigryw.

Pan fydd pobl yn gwerthfawrogi eu treftadaeth ac yn gweithio gyda'i gilydd i ddathlu diwylliant lleol, mae'n helpu cymunedau i deimlo'n dda. Mae'n rhoi ymdeimlad o berthyn i bobl.

- **Cynefin** — lle rydyn ni'n teimlo'n gartrefol ac yn perthyn.



## 5 Mae diwylliant yn adlewyrchu anghenion a dyheadau (gobeithion) plant a phobl ifanc.

Rydym ni eisiau i blant a phobl ifanc fwynhau diwylliant ac i deimlo bod yr hyn sydd ar gael yn berthnasol, yn ddiddorol ac yn ysbrydoledig. Dylai plant a phobl ifanc fod yn rhan o lunio diwylliant.

### Hawliau

Mae gan yr holl blant a phobl ifanc hawliau - maen nhw wedi'u nodi yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

> **Erthygl 31** — Mae gan bob plentyn yr hawl i ymlacio, chwarae, mwynhau hamdden a chymryd rhan mewn gweithgareddau fel celf a bywyd diwylliannol.

## 6 Mae diwylliant yn cysylltu cenedlaethau.

Mae diwylliant yn ein cysylltu ni i gyd. Gall gefnogi llesiant mewn pobl hŷn a rhoi diwedd ar unigrwydd. Mae'n bwysig bod gwahanol genedlaethau yn gallu cysylltu drwy ddiwylliant, rhannu profiadau â'i gilydd, a dysgu oddi wrth ei gilydd. Rydym ni am sicrhau bod pob cenhedlaeth yn cael cyfleoedd i gymryd rhan a mwynhau diwylliant.







## Beth rydyn ni eisiau ei weld

- Mae pawb yn cael eu trin yn deg, ac nid oes unrhyw un yn wynebu gwahaniaethu.
- Does dim yn atal pobl rhag cymryd rhan a mwynhau diwylliant.
- Mae pawb yn teimlo eu bod nhw'n cael eu gwerthfawrogi, eu parchu ac yn rhydd i fynegi eu diwylliant.
- Mae pob diwylliant yng Nghymru yn cael eu dathlu a'u cynrychioli mewn ffordd deg sy'n adlewyrchu cymdeithas sy'n newid.
- Mae pobl yn deall ac yn dathlu eu diwylliant lleol, yn teimlo ymdeimlad o falchder lleol ac yn teimlo fel eu bod nhw'n perthyn.
- Mae plant a phobl ifanc yn mwynhau cyfleoedd sy'n ddiddorol ac yn berthnasol. Maen nhw'n cael gwrandawiad, yn cymryd rhan ac yn cael dweud eu dweud wrth siapio diwylliant yng Nghymru.
- Mae diwylliant yn cael ei ddefnyddio i gysylltu cenedlaethau. Mae pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi ac maen nhw'n teimlo bod croeso i ychwanegu eu straeon, eu harbenigedd a'u sgiliau.

# Blaenoriaeth 2: Cenedl o Ddiwylliant

**Mae diwylliant yn ganolog i'n hunaniaeth fel cenedl. Mae'n cefnogi perthnasoedd dwfn a pharhaol gydag eraill ledled y byd. Mae diwylliant yn rhywbeth rydyn ni'n ei ddathlu.**

## Ein huchelgeisiau:

### 7 Mae diwylliant yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r Gymraeg ac ieithoedd eraill yng Nghymru.

Mae'r Gymraeg yn perthyn i Gymru gyfan. Mae'n rhan o'n hanes, ein treftadaeth a'n traddodiadau. Mae yna sîn gelfyddydau, llenyddiaeth a cherddoriaeth cyfrwng Cymraeg fywiog a chynyddol yng Nghymru.

Mae llawer o ieithoedd eraill yn cael eu defnyddio yng Nghymru hefyd. Rydym ni am sicrhau bod yr ieithoedd hyn yn cael eu parchu a'u dathlu hefyd.

### 8 Mae llesiant diwylliannol wrth wraidd llunio polisïau yng Nghymru.

Mae diwylliant yn ychwanegu gwerth at lawer o'r nodau sydd gennym ni ar gyfer Cymru. Dylai fod yn rhan o gynlluniau ar gyfer iechyd, llesiant, addysg, newid yn yr hinsawdd, yr economi a mwy.

### 9 Mae ymgysylltu diwylliannol yn cefnogi llesiant pobl a llesiant cymunedol.

Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau a phrosiectau diwylliannol yn helpu pobl i deimlo'n dda.

### 10 Mae cyrff diwylliant a threftadaeth yn gweithio gyda sectorau eraill i archwilio ffyrdd o ddefnyddio pŵer diwylliant.

Mae angen i'r sector diwylliant weithio gyda gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gwasanaethau addysg, busnesau, parciau cenedlaethol, chwaraeon, sefydliadau twristiaeth ac eraill. Gallent rannu gwybodaeth a datblygu ffyrdd creadigol o weithio.



## 11 Mae diwylliant yn cefnogi twristiaeth; ac mae twristiaeth yn cefnogi diwylliant.

Mae diwylliant yn cyfrannu at economi Cymru ac yn denu ymwelwyr i Gymru. Mae llawer o bobl yn dod i Gymru o bob cwr o'r byd i fwynhau ein treftadaeth Gymreig, ein diwylliant, tirweddau a llawer mwy.

Mae twristiaeth yn helpu busnesau i dyfu, yn dod â llawer o swyddi ac yn ychwanegu at ein heconomi. Rydym ni am sicrhau bod ein diwylliant a'n treftadaeth yn parhau i chwarae rhan bwysig yn nhwristiaeth Cymru.

## 12 Mae diwylliant yn rhan o'r ffordd mae Cymru'n datblygu perthnasoedd ledled y byd.

Dylai hyrwyddo diwylliant a threftadaeth Cymru a rhannu ein sgiliau creadigol ac artistig fod yn rhan fawr o feithrin perthynas â rhanbarthau a gwledydd eraill ledled y byd.

## 13 Mae diwylliant Cymru yn cael ei ddathlu a'i hyrwyddo ar lefelau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae ein diwylliant yn arbennig, ac mae'n ein gwneud yn unigryw. Rydym ni am barhau i greu cyfleoedd i hyrwyddo a dathlu diwylliant Cymru a chysylltu hyn â sut mae pobl yn lleol, ac o bob cwr o'r byd, yn gweld ac yn meddwl am Gymru.

## Beth rydyn ni eisiau ei weld

- Mae Cymru yn cael ei hystyried yn wlad ddwyieithog ac amlieithog. Mae'r Gymraeg yn cael ei hyrwyddo ac yn ffynnu.
- Mae manteision cadarnhaol diwylliant ar iechyd a llesiant yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi.
- Mae mwy o bobl yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a chreadigol fel ffordd o gefnogi eu llesiant.
- Mae'r sector diwylliant yn gweithio gydag eraill i gyflawni nodau cyffredin a datrys problemau.
- Mae diwylliant Cymreig yn cael ei hyrwyddo i'r byd fel rhan o gynnig twristiaeth ein gwlad.
- Mae ein diwylliant yn cael ei ddathlu yn lleol, yn rhanbarthol ac o amgylch y byd.



# Blaenoriaeth 3: Mae Diwylliant yn Wydn a Chynaliadwy

**Rydym ni'n gofalu am ein holl gasgliadau a'n hasedau diwylliannol a'u rheoli i'r safonau uchaf.**

**Mae gan y sector diwylliant weithlu cryf, medrus.**

**Mae ein diwylliant yn ein cynrychioli ni a'r materion yn y byd heddiw.**

## Ein huchelgeisiau:

### 14 Rydym ni'n gofalu am ein casgliadau a'n safleoedd hanesyddol a'u defnyddio i gefnogi dysgu, creadigrwydd, creu lleoedd a llesiant.

Mae angen i ni ofalu am ein lleoedd a'n casgliadau hanesyddol yn y ffyrdd cywir fel eu bod yn hygyrch ac yn gallu cael eu mwynhau gan genedlaethau'r dyfodol.

### 15 Dylai sefydliadau sy'n gyfrifol am amddiffyn a gofalu am ein hasedau diwylliannol gydweithio i ddeall beth sy'n bwysig ei gasglu i Gymru.

Mae adeiladau hanesyddol a chasgliadau diwylliannol mor bwysig. Mae angen gofalu amdanynt yn y ffyrdd cywir. Rydym ni angen mannau croesawgar lle gall pobl ryngweithio â'n casgliadau diwylliannol. Mae angen i berchnogion casgliadau ac adeiladau diwylliannol gael y wybodaeth, y cyngor a'r adnoddau cywir ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.



### 16 Mae ein treftadaeth ddiwylliannol anniriaethol yn rhan bwysig o'n stori genedlaethol – mae'n cael ei chofnodi, ei chefnogi i ffynnu, a'i rhannu ag eraill fel y gall cenedlaethau'r dyfodol ei mwynhau.

**Treftadaeth ddiwylliannol anniriaethol** – pethau na allwch chi eu cyffwrdd ond sy'n cael eu trosglwyddo o un genhedlaeth i'r nesaf. Gallai hyn gynnwys straeon gwerin, caneuon traddodiadol, defodau, ofergoelion a mythau, credoau, sgiliau i gynhyrchu crefftau traddodiadol.

Mae ein treftadaeth ddiwylliannol anniriaethol yn cynnwys llawer o bethau gwerthfawr. Rydym ni am sicrhau bod modd rhannu'r rhain gyda chenedlaethau'r dyfodol.

### 17 Mae diwylliant yn cael ei gefnogi a'i helpu drwy ddefnyddio technoleg ddigidol yn y ffyrdd cywir.

Mae gwasanaethau ar-lein a digidol yn helpu pobl i ryngweithio â diwylliant a chael mynediad at ddiwylliant mewn ffyrdd newydd. Gellir eu defnyddio i archebu tocynnau ar gyfer digwyddiadau, ymuno mewn gweithgareddau ar-lein, gwylio digwyddiadau sy'n cael eu ffrydio yn fyw, ymweld ag amgueddfeydd rhithwir a mwy.

Mae digideiddio yn caniatáu i ni gadw cofnodion digidol o'n treftadaeth ddiwylliannol diriaethol ac anniriaethol, ond mae angen rheoli'r cofnodion hyn yn ofalus.

Mae angen i sefydliadau yn y sector diwylliant feddwl am gydweithio digidol a phethau fel effaith Deallusrwydd Artiffisial.

## 18 Mae gan y sector diwylliant ymagwedd hirdymor tuag at gasglu gwybodaeth.

Rydym ni am gasglu mwy o wybodaeth am y sector diwylliant. Byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth a'r data hwn i'n helpu i wneud penderfyniadau.

## 19 Mae'r sector diwylliant yn lle gwych i weithio a gwirfoddoli.

Mae gweithlu'r sector diwylliant yn dibynnu ar sgiliau arbenigol. Rydym ni am gefnogi'r sector diwylliant i dyfu yng Nghymru fel y gall gynnig gwaith gwerth chweil i fwy o bobl.

Mae yna lawer o weithwyr llawrydd, gweithwyr prosiect a gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn y sector diwylliant. Dylent gael cefnogaeth i ddatblygu eu sgiliau a phrofi amodau gwaith da. Maen nhw'n chwarae rhan bwysig a dylent gael eu gwerthfawrogi am y gwaith maen nhw'n ei wneud.

## 20 Mae'r sector diwylliant yn dangos arweinyddiaeth o ran sut mae'n delio â'r argyfyngau hinsawdd a natur.

Gallwn ddefnyddio diwylliant i helpu pobl i ddeall newid yn yr hinsawdd. Mae angen i'r sector amddiffyn ei asedau a'i gasgliadau rhag tywydd poethach, llifogydd, stormydd ac effeithiau eraill newid yn yr hinsawdd. Bydd y sector yn gweithio gydag eraill i ddod o hyd i ffyrdd o leihau carbon a helpu Cymru i gyrraedd sero net.







## Beth rydyn ni eisiau ei weld

- Mae ein diwylliant yn cael ei ddiogelu er mwyn gallu cefnogi dysgu, creadigrwydd a llesiant.
- Rydym ni'n gofalu am ein hasedau a'n casgliadau diwylliannol ac maent ar gael bobl eu mwynhau.
- Rydym ni'n gofalu am ein treftadaeth anniriaethol ac yn ei ddiogelu mor ofalus â'n treftadaeth gorfforol.
- Mae technoleg ddigidol yn cael ei defnyddio yn y ffyrdd cywir ac mae'n helpu pobl i ryngweithio â diwylliant mewn ffyrdd newydd.
- Mae data a thystiolaeth am y sector diwylliant yn cael eu casglu. Gellir defnyddio hyn i gefnogi gwneud penderfyniadau a helpu i gynllunio ar gyfer y dyfodol.
- Mae'r sector diwylliant yn gyflogwr teg sy'n cefnogi staff, gweithwyr llawrydd, gweithwyr prosiect a gwirfoddolwyr.
- Mae gan y sector diwylliant ddigon o bobl sydd â'r sgiliau cywir, gan gynnwys sgiliau iaith Gymraeg.
- Mae'r sector diwylliant wedi ymrwymo i gynaliadwyedd, ac mae'n ysbrydoli pobl i ddysgu am newid yn yr hinsawdd, a chymryd camau yn ei erbyn.

# Cwestiynau

Atebwch y cwestiynau a rhowch wybod i ni beth rydych chi'n ei feddwl.

Ar ôl yr ymgynghoriad byddwn ni'n defnyddio'r adborth i ddatblygu fersiwn derfynol y strategaeth hon ar gyfer diwylliant yng Nghymru 2024-2030.

## Amdanoch chi

Rydym ni am wybod p'un a yw'r ymgynghoriad hwn wedi cyrraedd gwahanol grwpiau o bobl, o wahanol gymunedau.

### Ydych chi yn?

- ◯ Wryw
- ◯ Fenyw
- ◯ Anneuaidd
- ◯ Arall, dywedwch wrthym os ydych chi eisiau
- ◯ Mae'n well gen i beidio â dweud

### Pa oedran ydych chi?

- ◯ 0 dan 11
- ◯ 11-14
- ◯ 15-18
- ◯ 18-25
- ◯ 25+

### Ydych chi'n rhan o'r grwpiau neu'r cymunedau canlynol? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

- ◯ Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig
- ◯ LHDTC+
- ◯ Anabl (gan gynnwys cyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor)
- ◯ Aelwydydd incwm isel
- ◯ Di-waith
- ◯ Byw mewn tlodi

### Ble ydych chi'n byw?

- ◯ Gogledd Cymru
- ◯ Canolbarth Cymru
- ◯ De Ddwyrain Cymru
- ◯ De-orllewin Cymru
- ◯ Y tu allan i Gymru (DU)
- ◯ Y tu allan i Gymru (Y tu allan i'r DU)

### Sut le yw'r ardal?

- ◯ Cymunedau Gwledig
- ◯ Trefol
- ◯ Arall

### Hoffem wybod pam mae gennych chi ddiddordeb yn yr ymgynghoriad hwn

- ◯ Mae gen i ddiddordeb yn y Sector Celfyddydau
- ◯ Mae gen i ddiddordeb yn y Sector Treftadaeth
- ◯ Rwy'n mwynhau ymweld ag Amgueddfeydd
- ◯ Rwy'n mwynhau defnyddio Llyfrgelloedd
- ◯ Mae gen i ddiddordeb mewn Archifau
- ◯ Mae gen i ddiddordeb yn y Sector Diwylliant yng Nghymru
- ◯ Rwy'n gwirfoddoli – ble?
- ◯ Mae gen i ddiddordeb gwirfoddoli
- ◯ Rheswm arall (dywedwch wrthym)



# Cwestiynau

## Blaenoriaeth 1: Mae Diwylliant Yn Dod Â Ni At Ein Gilydd

A ydych chi'n cytuno y dylai hyn fod yn flaenoriaeth i ddiwylliant yng Nghymru?

**Ydw** ◯ **Nac ydw** ◯ **Dim barn** ◯

## Uchelgeisiau

### 1: Mae diwylliant yn gynhwysol, yn hygyrch ac yn amrywiol.

A ddylai'r uchelgais hwn gael ei gynnwys?

**Dylai** ◯ **Na ddylai** ◯ **Dim barn** ◯

### 2: Mae democratiaeth ddiwylliannol a hawliau diwylliannol wrth wraidd diwylliant yng Nghymru.

A ddylai'r uchelgais hwn gael ei gynnwys?

**Dylai** ◯ **Na ddylai** ◯ **Dim barn** ◯

### 3: Mae diwylliant yn coffáu (dathlu) ac yn cyflwyno'r gorffennol mewn ffordd gytbwys.

A ddylai'r uchelgais hwn gael ei gynnwys?

**Dylai** ◯ **Na ddylai** ◯ **Dim barn** ◯

### 4: Mae diwylliant yn rhan o greu lleoedd a llesiant cymunedol.

A ddylai'r uchelgais hwn gael ei gynnwys?

**Dylai** ◯ **Na ddylai** ◯ **Dim barn** ◯

### 5: Mae diwylliant yn adlewyrchu anghenion a dyheadau (gobeithion) plant a phobl ifanc.

A ddylai'r uchelgais hwn gael ei gynnwys?

**Dylai** ◯ **Na ddylai** ◯ **Dim barn** ◯

### 6: Mae diwylliant yn cysylltu cenedlaethau.

A ddylai'r uchelgais hwn gael ei gynnwys?

**Dylai** ◯ **Na ddylai** ◯ **Dim barn** ◯

A oes unrhyw uchelgeisiau eraill y dylem ni eu cynnwys ym Mlaenoriaeth 1?

A oes unrhyw beth arall y mae angen i ni feddwl amdano?



## Blaenoriaeth 2: Cenedl o Ddiwylliant

A ydych chi'n cytuno y dylai hyn fod yn flaenoriaeth i ddiwylliant yng Nghymru?

Ydw ◯ Nac ydw ◯ Dim barn ◯

# Uchelgeisiau

## 7: Mae diwylliant yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r Gymraeg ac ieithoedd eraill yng Nghymru.

A ddylai'r uchelgais hwn gael ei gynnwys?

Dylai ◯ Na ddylai ◯ Dim barn ◯

## 8: Mae llesiant diwylliannol wrth wraidd llunio polisïau yng Nghymru.

A ddylai'r uchelgais hwn gael ei gynnwys?

Dylai ◯ Na ddylai ◯ Dim barn ◯

## 9: Mae ymgysylltu diwylliannol yn cefnogi llesiant pobl a llesiant cymunedol.

A ddylai'r uchelgais hwn gael ei gynnwys?

Dylai ◯ Na ddylai ◯ Dim barn ◯

## 10: Mae cyrff diwylliant a threftadaeth yn gweithio gyda sectorau eraill i archwilio ffyrdd o ddefnyddio pŵer diwylliant.

A ddylai'r uchelgais hwn gael ei gynnwys?

Dylai ◯ Na ddylai ◯ Dim barn ◯

## 11: Mae diwylliant yn cefnogi twristiaeth; ac mae twristiaeth yn cefnogi diwylliant.

A ddylai'r uchelgais hwn gael ei gynnwys?

Dylai ◯ Na ddylai ◯ Dim barn ◯

## 12: Mae diwylliant yn rhan o'r ffordd mae Cymru'n datblygu perthnasoedd ledled y byd.

A ddylai'r uchelgais hwn gael ei gynnwys?

Dylai ◯ Na ddylai ◯ Dim barn ◯

## 13: Mae diwylliant Cymru yn cael ei ddathlu a'i hyrwyddo ar lefelau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

A ddylai'r uchelgais hwn gael ei gynnwys?

Dylai ◯ Na ddylai ◯ Dim barn ◯

A oes unrhyw uchelgeisiau eraill y dylem ni eu cynnwys ym Mlaenoriaeth 2?

A oes unrhyw beth arall y mae angen i ni feddwl amdano?



## Blaenoriaeth 3: Mae Diwylliant yn Wydn a Chynaliadwy

A ydych chi'n cytuno y dylai hyn fod yn flaenoriaeth i ddiwylliant yng Nghymru?

Ydw ◯ Nac ydw ◯ Dim barn ◯

# Uchelgeisiau

### 14: Rydym ni'n gofalu am ein casgliadau a'n safleoedd hanesyddol a'u defnyddio i gefnogi dysgu, creadigrwydd, creu lleoedd a llesiant.

A ddylai'r uchelgais hwn gael ei gynnwys?

Dylai ◯ Na ddylai ◯ Dim barn ◯

### 15: Dylai sefydliadau sy'n gyfrifol am amddiffyn a gofalu ein hasedau diwylliannol gydweithio i ddeall beth sy'n bwysig ei gasglu i Gymru.

A ddylai'r uchelgais hwn gael ei gynnwys?

Dylai ◯ Na ddylai ◯ Dim barn ◯

### 16: Mae ein treftadaeth ddiwylliannol anniriaethol yn rhan bwysig o'n stori genedlaethol – mae'n cael ei chofnodi, ei chefnogi i ffynnu, a'i rhannu ag eraill fel y gall cenedlaethau'r dyfodol ei mwynhau.

A ddylai'r uchelgais hwn gael ei gynnwys?

Dylai ◯ Na ddylai ◯ Dim barn ◯

### 17: Mae diwylliant yn cael ei gefnogi a'i helpu drwy ddefnyddio technoleg ddigidol yn y ffyrdd cywir.

A ddylai'r uchelgais hwn gael ei gynnwys?

Dylai ◯ Na ddylai ◯ Dim barn ◯

### 18: Mae gan y sector diwylliant ymagwedd hirdymor tuag at gasglu gwybodaeth.

A ddylai'r uchelgais hwn gael ei gynnwys?

Dylai ◯ Na ddylai ◯ Dim barn ◯

### 19: Mae'r sector diwylliant yn lle gwych i weithio a gwirfoddoli.

A ddylai'r uchelgais hwn gael ei gynnwys?

Dylai ◯ Na ddylai ◯ Dim barn ◯

### 20: Mae'r sector diwylliant yn dangos arweinyddiaeth o ran sut mae'n delio â'r argyfyngau hinsawdd a natur.

A ddylai'r uchelgais hwn gael ei gynnwys?

Dylai ◯ Na ddylai ◯ Dim barn ◯

A oes unrhyw uchelgeisiau eraill y dylem ni eu cynnwys ym Mlaenoriaeth 3?

A oes unrhyw beth arall y mae angen i ni feddwl amdano?

## Yr Iaith Gymraeg

Mae'r Gymraeg yn bwysig. Rydym ni am sicrhau bod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac nid yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ydych chi'n meddwl y bydd y strategaeth newydd hon yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg?

Ydw ◯ Nac ydw ◯ Ddim yn gwybod ◯

Ydych chi'n meddwl y bydd y strategaeth newydd hon yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar y Gymraeg?

Ydw ◯ Nac ydw ◯ Ddim yn gwybod ◯

A oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei ddweud am hyn?

## Diolch

Anfonwch eich atebion i:

diwylliant@llyw.cymru

Ymgynghoriad Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant 2024
Yr Is-adran Diwylliant
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
Conwy
LL31 9RZZ

Erbyn 4 Medi 2024

I gael rhagor o wybodaeth am y strategaeth hon:
llyw.cymru/blaenoriaethau-drafft-ar-gyfer-diwylliant-yng-nghymru-2024-i-2030

